



Canllaw i ofynion ailsefyll

CBAC UG, Safon Uwch a TGAU
Eduqas UG, Safon Uwch a TGAU
Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol
Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol)
Lefel 3 Tystysgrifau Cymhwysol, Diplomâu a Diplomâu Estynedig
Bagloriaeth Cymru – Tystysgrif Her Sgiliau
Lefel Mynediad
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru)

Yn weithredol o Medi 2024.

Cynnwys

Adran 1: Cymwysterau CBAC TAG UG, Safon Uwch a TGAU a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru (nad ydynt ar gael i ganolfannau yn Lloegr)	3
TAG	3
TGAU	3
Myfyrwyr yn ailsefyll unedau TGAU o fis Mehefin 2022 lle nad aseswyd unedau cyfan yn 2022	4
Cyfres TGAU Tachwedd	4
Adran 2: Cymwysterau CBAC Eduqas – wedi'u hachredu gan Ofqual	5
Cyfres TGAU Tachwedd	5
Adran 3: Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (hen fanylebau) a Cyfathrebu Busnes Bydeang	5
Adran 4: Lefel 1/Lefel 2 Dyfarniad Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) – Addysgu am y tro cyntaf o 2022	6
Adran 5: Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol a'r Diploma Estynedig (Lefel 3)	7
Adran 6: Bagloriaeth Cymru – Tystysgrif Her Sgiliau	7
Tystysgrif Her Sgiliau Uwch a Bagloriaeth Cymru	7
Adran 7: Lefel Mynediad	8
Adran 8: Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru)	8
Lefel 2: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd	8
Lefel 2: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori	8
Lefel 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau	8
Lefel 3: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori	9
Lefel 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau	9

Adran 1: Cymwysterau CBAC TAG UG, Safon Uwch a TGAU a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru (nad ydynt ar gael i ganolfannau yn Lloegr)

TAG

Mae cymwysterau TAG a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru yn unedol. UNWAITH yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Mae hyn yn berthnasol i bob uned UG ac U2. Defnyddir y sgôr marc unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned o'r arholiad a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Unwaith y bydd ymgeisydd wedi 'dechrau o'r newydd', os bydd yn ail-gofrestru am yr uned Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o ymgais flaenorol.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod wedyn yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Noder bod Safon Uwch Bioleg, Cemeg a Ffiseg Uned 5 yn arholiadau ar yr amserlen.

Os dyfarnwyd gradd UG/Safon Uwch i ymgeisydd yn 2021 neu 2022 a'i fod am ailsefyll yn 2025 neu gyfres yn y dyfodol, yna dylech gysylltu â TAG@cbac.co.uk i drafod dewisiadau a'r gofynion cofrestru.

TGAU

Mae cymwysterau TGAU sy'n unedol a llinol sydd wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru. Mae rheolau ailsefyll yn amrywio gan ddibynnu ar p'un a yw'r cymhwyster yn unedol neu'n llinol.

Ar gyfer manylebau **unedol**, gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol UNWAITH yn unig. Defnyddir y marc unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y **rheol derfynol** yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r rhan leiaf o'r asesiad sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi. Mae'r rheol derfynol wedi'i gosod ar 40% o'r cymwysterau'n gyffredinol ar gyfer pob pwnc ar wahân i TGAU Cymraeg Ail Iaith sydd â rheol derfynol 75%. Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 40%/75%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned o'r arholiad a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd

bynag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Unwaith y bydd ymgeisydd wedi 'dechrau o'r newydd', os bydd yn ail-gofrestru am yr uned Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o ymgais flaenorol.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Ar gyfer cymwysterau TGAU **llinol**, gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeisydd ailsefyll pob uned arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau unedau Asesu Di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb, ar yr amod bod ymgeisydd wedi ardystio am y cymhwyster. Os yw ymgeisydd yn ailwneud uned/asesiad di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc o asesiad di-arholiad blaenorol), y marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r Asesiad Di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol)

Myfyrwyr yn ailsefyll unedau TGAU o fis Mehefin 2022 lle nad aseswyd unedau cyfan yn 2022

Os safodd ymgeisydd gymwysterau CBAC TGAU wedi'u haddasu yn 2022 a'i fod yn dymuno ailsefyll yn 2025 neu gyfres yn y dyfodol, yna cysylltwch â TGAU@cbac.co.uk am arweiniad ynghylch dewisiadau a gofynion cofrestru.

Cyfres TGAU Tachwedd

Gellir cofrestru unrhyw ymgeisydd am gymwysterau CBAC TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Mathemateg, TGAU Mathemateg – Rhifedd a TGAU Saesneg Iaith yng nghyfres Tachwedd. Nid oes meini prawf cymhwyso (mae rheolau gwahanol yn eu lle o ran ein cymwysterau CBAC Eduqas a achredwyd gan Ofqual – gweler adran 2 isod).

Adran 2: Cymwysterau CBAC Eduqas – wedi'u hachredu gan Ofqual

Mae holl gymwysterau diwygiedig CBAC Eduqas, a achredwyd gan Ofqual, yn rhai llinol. Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau cydrannau Asesu Di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb, ar yr amod bod ymgeisydd wedi ardystio am y cymhwyster. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll y gydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r Asesiad Di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol)

Cyfres TGAU Tachwedd

Y meini prawf cymhwyso ar gyfer cyfres TGAU Tachwedd CBAC Eduqas yw bod rhaid i'r ymgeisydd fod o leiaf 16 oed ar neu cyn 31 Awst cyn cyfres ailsefyll Tachwedd (e.e. gall ymgeisydd sefyll arholiad yng nghyfres TGAU Tachwedd 2024 os ydoedd o leiaf 16 oed ar neu cyn 31 Awst 2024).

Mae newidiadau wedi'u gwneud i Amod Lefel y Cymhwyster Ofqual (Qualification Level Condition (GCSE25.3a)). Yn sgil hynny, gall fod yn briodol caniatáu i ymgeisydd yr ystyrir ei fod yn anabl dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac a fyddai'n anghymwys fel arall i sefyll TGAU ym mis Tachwedd gael ei gofrestru fel addasiad rhesymol angenrheidiol. Cysylltwch â Specialrequirements@wjec.co.uk am wybodaeth bellach.

Adran 3: Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (hen fanylebau) a Cyfathrebu Busnes Byd-eang

Yn ogystal â'r cymwysterau Cyfathrebu Busnes Byd-eang yn Ffrangeg (5879), Almaeneg (5889) a Sbaeneg (5899), mae'r rheolau canlynol yn berthnasol i:

- Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Gweithredu Digwyddiadau (5599)
- Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Twristiaeth (9800)
- Bydd cyfres olaf ar gael ar gyfer y Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig (9810) ym **Mehefin 2027** gyda chyfle i ailsefyll yr uned allanol ym **Mehefin 2028**. Nid yw'r cymhwyster hwn ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

Gall ymgeiswyr ailsefyll:

- unedau a asesir yn fewnol unwaith;
- unedau a asesir yn allanol ddwywaith.

Defnyddir y radd orau a enillir, naill ai yn yr unedau mewnol neu'r unedau allanol, ar gyfer agregu.

Os bydd ymgeiswyr yn dymuno cofrestru am uned a asesir yn fewnol am y trydydd tro, neu unrhyw uned a asesir yn allanol am y pedwerydd tro, yna ni ellir defnyddio unrhyw ganlyniadau o unedau a safwyd yn flaenorol wrth agregu'r radd newydd. Felly, rhaid ailsefyll pob uned yn y cymhwyster.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Adran 4: Lefel 1/Lefel 2 Dyfarniad Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol) – Addysgu am y tro cyntaf o 2022

Ailsefyll unedau cyn ardystio

Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol cyn ardystio ond ni allant wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Defnyddir y sgôr marc unffurf gorau o'r cynigion i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol. Gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn allanol cyn ardystio; ond, mae gofyniad terfynol o 40% yn y cymhwyster hwn y mae'n rhaid ei fodloni gan yr uned a asesir yn allanol. Felly, dim ond y sgôr marciau unffurf o'r ymgais yn y gyfres y mae'r ymgeisydd yn cyfnewid y cymhwyster ynddi a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw hon yn is na'r ymgais blaenorol.

Ailsefyll unedau ar ôl ardystio

Gall ymgeiswyr sy'n anhapus â'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer y cymhwyster ddewis ailsefyll un neu fwy o unedau ar ôl ardystio. Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn allanol, dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais flaenorol. Nid oes angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol gan y gellir trosglwyddo marciau'r uned a asesir yn fewnol am hyd oes y fanyleb.

Lle mae'r ymgeisydd yn ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol, defnyddir yr uchaf o'r sgorau marciau unffurf naill ai o'r ymgais gychwynnol neu'r ymgais ailsefyll i gyfrifo'r radd gyffredinol. Hefyd, bydd angen i'r ymgeisydd ailsefyll yr uned a asesir yn allanol i fodloni gofyniad rheol derfynol y cymhwyster. Dim ond y sgôr marc unffurf o'r ymgais ailsefyll a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'r radd honno'n is na'r ymgais flaenorol.

Adran 5: Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol a'r Diploma Estynedig (Lefel 3)

Ar gyfer Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol Lefel 3, gall ymgeiswyr ailsefyll:

- unedau a asesir yn fewnol **unwaith yn unig**
- unedau a asesir yn allanol **ddwywaith**.

Defnyddir y radd orau a enillir, naill ai yn yr unedau mewnol neu'r unedau allanol, ar gyfer agregu.

Pe byddai ymgeiswyr am gofrestru am uned fewnol fwy nag unwaith neu uned allanol fwy na dwywaith, ni ellir defnyddio unrhyw ganlyniadau o unedau a safwyd yn flaenorol i agregu'r radd newydd. **Felly, rhaid ailsefyll pob uned yn y cymhwyster.**

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Adran 6: Bagloriaeth Cymru – Tystysgrif Her Sgiliau

Gall ymgeiswyr ailsefyll uned **unwaith yn unig**. Defnyddir y marc gorau a gyflawnir o'r ddwy ymgais i agregu'r radd newydd.

Pe byddai ymgeiswyr am gofrestru am uned am y trydydd tro, nid oes hawl defnyddio unrhyw ganlyniadau o unedau a safwyd yn flaenorol i **agregu'r radd newydd. Felly, rhaid ailsefyll pob uned yn y cymhwyster.**

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Tystysgrif Her Sgiliau Uwch a Bagloriaeth Cymru

Dyfarnwyd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch am y tro olaf yn haf 2024. Bydd cyfle ailsefyll yn unig yn haf 2025 i ymgeiswyr sydd wedi cyfnewid y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch yn haf 2024 neu cyn hynny. Gall ymgeiswyr ailsefyll cydrannau a chyfnewid y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch eto. I gyfnewid am y Dystysgrif Her Sgiliau mae angen cyfnewid hefyd am y cymwysterau Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau yn flaenorol ac yn disgwyl canlyniadau cymwysterau ategol er mwyn cyflawni'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, gellir cyfnewid am y Cymhwyster ar ei ben ei hun.

Adran 7: Lefel Mynediad

Cymwysterau llinol yw pob un o gymwysterau Lefel Mynediad CBAC. Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau unedau Asesu Di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb, ar yr amod bod ymgeisydd wedi ardystio am y cymhwyster. Os yw ymgeisydd yn ailwneud uned yr asesu di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc o asesiad di-arholiad blaenorol), y marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r asesiad di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol)

Adran 8: Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru)

Lefel 2: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Unedau Asesu Allanol:

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer y troeon y gellir ailsefyll.

Unedau Asesu Mewnol:

Gall ymgeiswyr nad ydynt yn ennill digon o farciau i lwyddo mewn asesiad mewnol ailsefyll yr asesiad gan ddefnyddio cyfres newydd o gwestiynau/tasgau. Os bydd yr ymgeisydd wedi defnyddio pob cronfa o gwestiynau/tasgau sydd ar gael, rhaid defnyddio astudiaeth achos newydd a chronfa newydd o gwestiynau/tasgau.

Cyfeiriwch at dudalen 48 y [fanyleb](#) am fanylion pellach.

Lefel 2: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Bydd ymgeiswyr nad ydyn nhw'n ennill gradd Llwyddo yn yr arholiad allanol yn cael cyfle i ailsefyll yr arholiad allanol.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer y troeon y gellir ailsefyll.

Lefel 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol. Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll yr uned, rhaid iddo ailsefyll Aseiniad 1 a 2. Rhaid i Aseiniad 1 fod yn seiliedig ar yr astudiaethau achos a gyhoeddwyd ar gyfer y gyfres lle mae'r ailsefyll yn digwydd. Gall

yr ymgeisydd ddefnyddio'r un lleoliad profiad gwaith fel y sail ar gyfer ailsefyll Aseiniad 2. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ailsefyll uned o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni all ymgeiswyr wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Gellir trosglwyddo marciau'r uned a asesir yn fewnol dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll yr uned (yn hytrach na throsglwyddo marc blaenorol), yna'r marc newydd a fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol. Defnyddir y radd orau o'r ddwy ymgais ar yr uned allanol i'w hagregu.

Lefel 3: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned allanol unwaith a bydd y radd uchaf yn cael ei hystyried wrth ddyfarnu'r cymhwyster. Gall ymgeiswyr ailsefyll y cymhwyster cyfan nifer o weithiau.

Lefel 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned a asesir yn fewnol. Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll uned, bydd yn rhaid iddo ymgymryd ag aseiniad newydd yn seiliedig ar yr astudiaethau achos a ryddheir ar gyfer y gyfres y bydd yr ymgeisydd yn ailsefyll ynddi. Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll Uned 6, gall ddefnyddio'r un lleoliad profiad gwaith fel y sail ar gyfer ailsefyll Aseiniad 2. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ailsefyll uned o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni all ymgeiswyr wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Gellir trosglwyddo marciau unedau a asesir yn fewnol dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll yr unedau (yn hytrach na throsglwyddo'r marc blaenorol), yna'r marc uwch fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol.

Gall dysgwyr ailsefyll yr arholiad allanol ddwywaith a bydd y radd uchaf yn cael ei hystyried wrth ddyfarnu'r cymhwyster.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

Gall dysgwyr ailsefyll y cymhwyster cyfan nifer o weithiau.